Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Y Forwyn Fair

**Heol Meisgyn**
**Meisgyn**
**Aberpennar**
**RhCT**
**CF45 3UA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Y Forwyn Fair

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Y Forwyn Fair |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 113 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 76 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 20.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/12/2012 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/06/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'n amlwg fod y disgyblion yn Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Y Forwyn Fair yn hoff iawn o ddod i'r ysgol lle mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cymdeithasol ac academaidd. Ceir darpariaeth ystyriol ac effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae gweledigaeth yr ysgol, sef 'Tyfu gyda'n gilydd mewn ffydd, cariad a gwybodaeth' ('Growing together in faith, love and knowledge'), yn adlewyrchu nodau'r ysgol yn glir.

Mae disgyblion yn deall faint mae staff yn poeni amdanynt, a cheir ymdeimlad o barch ar y ddwy ochr rhwng oedolion a disgyblion. Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at amrywiaeth o grwpiau a phwyllgorau, ac yn rhannu enghreifftiau yn frwdfrydig o ble mae eu dylanwad wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau difyr i ddisgyblion wneud cynnydd yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Yn yr arfer orau, maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut. Nid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ym meysydd eraill y cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae pob un o'r staff yn cydweithio'n effeithiol i greu ethos sy'n sicrhau rôl allweddol mewn hyrwyddo dysgu effeithiol yn yr ysgol. Maent yn uchelgeisiol i ddisgyblion lwyddo ac yn eu cynorthwyo'n llwyddiannus i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn ac yn gwneud cynnydd da â'u medrau mewn Saesneg a mathemateg. Mae staff wedi llwyddo i ddatblygu medrau disgyblion yn y Gymraeg, fel bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu siarad yn hyderus ac yn defnyddio brawddegau cynyddol gymhleth erbyn iddynt adael Blwyddyn 6. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac yn cyflawni eu rôl fel ffrind beirniadol, gan ofyn cwestiynau heriol am benderfyniadau, sy'n cynorthwyo'r pennaeth i symud yr ysgol ymlaen. Mae rhieni'n gwybod bod arweinwyr a llywodraethwyr yn gwneud penderfyniadau er lles pennaf y disgyblion.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r problemau diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion benderfynu beth maent yn ei ddysgu, a sut, a'u cynorthwyo i gymhwyso'u medrau yn effeithiol ar draws pob maes dysgu

A3 Datblygu a defnyddio'r mannau yn yr awyr agored yn gyson i ymestyn dysgu disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau ar lefel sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn gwneud cynnydd da ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn gyflym, gan ddysgu geirfa newydd yng nghyd-destun gweithgareddau ystyrlon. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 1, mae medrau gwrando disgyblion yn chwarae rhan sylweddol yn eu dysgu, er enghraifft wrth ymgymryd yn effeithiol â chwarae rôl wrth iddynt werthu hufen iâ i'w gilydd. Ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn cyfuno eu medrau siarad a gwrando yn effeithiol i uniaethu'n sensitif ac yn bwrpasol â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn cydweithio'n dda iawn. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb i gyfraniad pobl eraill yn dda, hyd yn oed pan fydd ganddynt rywbeth y maent yn awyddus i'w ddweud eu hunain. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod testunau heriol ag aeddfedrwydd trawiadol. Mae hyn yn eu galluogi i drafod testunau heriol, fel hawliau dynol, yn effeithiol. Maent yn wrandawyr myfyriol sy'n dangos empathi a sensitifrwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn gyflym. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dysgu seiniau llythrennau yn gyflym. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd ac mae ganddynt nifer o strategaethau effeithiol ar gyfer gwneud hynny. Gall llawer o ddarllenwyr mwy abl enwi eu hoff awduron a genres. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn parhau i wneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn gwybod sut i ddefnyddio mynegai a geirfa ac yn trafod y plot mewn storïau yn ddeallus. Erbyn iddynt gyrraedd Blynyddoedd 5 a 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr rhugl. Maent yn llunio casgliadau o'u darllen ac yn deall sut mae awduron yn ysgrifennu er effaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn gwneud cynnydd buddiol mewn dysgu i ffurfio llythrennau, ac yn parhau â hyn ym Mlwyddyn 1. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn dda iawn gan gwmpasu amrywiaeth eang o wahanol genres ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr perswadiol at fôr-leidr i osgoi cerdded ar yr astell. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu hatalnodi a gramadeg, ac yn dysgu sillafu geiriau cymhleth yn gywir. Maent yn dechrau ysgrifennu mewn paragraffau, gan ymestyn eu geirfa i ddefnyddio geiriau technegol yn bwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd datblygedig fel cyfrwng pwerus ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm. Gwnânt gynnydd da hefyd mewn datblygu eu medrau rhifedd, ond ni chaiff y rhain eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm mor aml. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ennill dealltwriaeth dda o rif. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 2, gall y rhan fwyaf ohonynt gyfrifo'r newid o bunt a chwblhau rhannu syml trwy grwpio'n gyfartal. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn darllen ac yn ysgrifennu cyfesurynnau yn y cwadrant cyntaf ac

yn defnyddio amser digidol yn gywir. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn datblygu i fod yn fathemategwyr medrus yn y medrau rhif sylfaenol. Maent yn tynnu rhifau hyd at 10,000 ac yn defnyddio graffiau llinell i blotio'r tymheredd mewn gwahanol wledydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu gallu i siarad Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn dechrau defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn galw patrymau brawddeg a ddysgwyd yn flaenorol i gof yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn parhau i gaffael geirfa newydd yn gyflym, ac erbyn Blynyddoedd 5 a 6, gall y rhan fwyaf ohonynt ymestyn brawddegau a chynnal sgwrs syml ar ystod eang o destunau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau digidol yn briodol i ymestyn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn rhoi cyfarwyddiadau i deganau rhaglenadwy er mwyn gwneud iddynt symud. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd amlgyfrwng, er enghraifft creu ffilm i ddweud hwyl fawr wrth Gomisiynydd Plant Cymru sy'n ymadael.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Mae disgyblion iau yn gweithio'n galed ar dasgau sy'n gofyn iddynt fyfyrio, ac maent wedi'u harfogi'n dda i esbonio eu meddyliau. Mae disgyblion hŷn yn trafod materion cymhleth yn ddeallus, yn enwedig ynglŷn â'u hawliau a phryderon byd-eang. Fodd bynnag, nid yw eu medrau i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gan ddefnyddio'r medrau uwch hyn wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd da mewn datblygu eu medrau creadigol ac artistig. Defnyddiant amrywiaeth dda o gyfryngau, er enghraifft creu lluniau dros dro gyda gwrthrychau naturiol yn ardal y coetir. Ym Mlynyddoedd 1 a 2, maent yn dehongli cerddoriaeth Karl Jenkins mewn paent, gan ddefnyddio eu dwylo i greu gweadau a lliwiau sy'n adlewyrchu'r hyn y maent yn ei glywed.

Mae gan yr ysgol ddyheadau uchel ar gyfer ei disgyblion. Er enghraifft, ymwelodd disgyblion Blwyddyn 6 â champws prifysgol a mynd am dro o'i amgylch, lle roedd plant yn mynychu gweithdai mewn rhaglennu digidol ac yn cwblhau arbrofion gwyddonol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn aelodau gwerthfawr o deulu cynnes a gofalgar. Maent yn falch o'u hysgol ac yn gwerthfawrogi effaith gadarnhaol ethos Catholig yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch at gymuned yr ysgol gyfan, ac yn datblygu perthnasoedd cryf â'i gilydd a gydag oedolion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymddygiad rhagorol trwy gydol y diwrnod ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r ffordd y gwrandewir arnynt, ac y cânt eu cynorthwyo. Maent yn teimlo'n hyderus y gallant droi at unrhyw aelod o staff os byddant yn pryderu. Er enghraifft, mae disgyblion yn gadael nodiadau trwy flychau 'angenfilod gofidiau' a 'Byddai'n dda pe bai fy athro yn gwybod…' i gyfleu pryderon yn breifat. Hefyd, mae disgyblion yn mwynhau sesiynau i wneud yn siŵr eu bod nhw'n iawn ar ddechrau a diwedd pob wythnos, gan eu bod yn cefnogi eu lles emosiynol yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyriol ac yn trin pobl eraill yn deg. Yn benodol, mae disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol yn teimlo eu bod yn cael croeso a chymorth pan fyddant yn dechrau yno. Mae disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i reoli eu hanghenion emosiynol yn ymateb yn dda i gymorth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn dathlu gwahaniaethau pawb. Er enghraifft, maent yn gwisgo sanau nad ydynt yn bâr i ddathlu Diwrnod Syndrom Down y Byd. Byddai disgyblion hŷn yn argymell yr ysgol i ddisgyblion eraill yn llwyr.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu i fod yn unigolion iach a hyderus ac yn deall pwysigrwydd cael ffordd iach o fyw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am y dewisiadau iach a wnânt yn ystod y dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein trwy gymryd rhan yn Niwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel bob blwyddyn.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth ragorol o'u hawliau. Maent yn gywir yn hystyried eu hunain yn ddinasyddion sy'n foesegol wybodus, ac yn falch o'r ffaith hon. Mae disgyblion yn arwain amrywiaeth gynyddol o grwpiau disgyblion yn effeithiol, y mae gan rai ohonynt hanes da o greu effaith ar ddarpariaeth a chyfleoedd dysgu. Er enghraifft, mae'r Senedd yn dylanwadu ar ba offer sydd ar yr iard yn ystod amser chwarae. Mae'r grwpiau hyn yn dechrau ailsefydlu ar ôl y pandemig.

Mae disgyblion yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i sefydlu grwpiau gweithredu i fynd i'r afael â materion y maent yn teimlo'n angerddol amdanynt, er enghraifft y 'criw glanhau', sef grŵp o ddisgyblion hŷn sy'n cymryd cyfrifoldeb am gadw ardaloedd o'u hysgol yn lân ac yn daclus yn ystod amser cinio. O roi'r cyfle iddynt, mae disgyblion yn meddwl am brofiadau dysgu gwerth chweil ac yn ymgymryd yn dda â gweithgareddau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn weithredol yn eu dysgu ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Maent yn mwynhau eu gwersi ac yn datblygu'n dda fel dysgwyr uchelgeisiol a medrus. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i adborth ac yn gwneud cynnydd da o ganlyniad. Dangosir brwdfrydedd disgyblion am ddysgu gan eu hymrwymiad i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol fel 'Rights Knights,' lle mae'r disgyblion yn dysgu am wlad wahanol bob wythnos.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan athrawon a chynorthwywyr addysgu berthnasoedd gweithio effeithiol gyda disgyblion. Mae hon yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth ac yn cefnogi'r addysgu effeithiol sy'n digwydd ar draws yr ysgol. Mae staff yn sensitif iawn i anghenion disgyblion, yn parchu disgyblion ac yn dangos synnwyr digrifwch da wrth ryngweithio â nhw. Mae staff yn rhoi sylw ffocysedig i ddisgyblion ac yn treulio amser ychwanegol ar ôl sesiynau i ddiwallu anghenion disgyblion os oes angen. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn darparu digon o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, nac yn eu cynorthwyo i gymhwyso'u medrau yn effeithiol ar draws pob maes dysgu.

Mae gwerthoedd Cristnogol a ffydd Gatholig yr ysgol yn rhan annatod o'r addysgu a'r dysgu sy'n cael eu plethu'n effeithiol i mewn i'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir gan y Cwricwlwm i Gymru i ymgorffori'r gwerthoedd hyn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru yn dda, er enghraifft wrth ddathlu bywyd Elaine Morgan, sef awdur lleol. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i addysgu disgyblion am gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, er enghraifft trwy ddathlu bywydau unigolion ysbrydoledig fel Martin Luther King a Rosa Parks. Caiff natur gynhwysol ymagwedd yr ysgol at hawliau unigol ei hyrwyddo'n dda iawn yn y cwricwlwm. Mae gan hyn rôl arwyddocaol mewn sicrhau bod disgyblion yn parchu pob grŵp lleiafrifol ac yn gwybod bod pob unigolyn yn unigryw a chyfartal.

Mae athrawon a staff cymorth yn cynllunio gyda'i gilydd yn dda ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Dangosir eu heffaith yn y ffordd y mae ymyriadau dysgu yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae gan bob un o'r staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion. Mae athrawon a staff cymorth yn dangos gwybodaeth bynciol dda mewn llawer o feysydd y cwricwlwm. Mae hyn yn arbennig o amlwg wrth addysgu darllen a rhif sylfaenol. Defnyddiant gwestiynau yn fedrus i ddatblygu meddwl a dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau datblygedig ym mhob maes dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu clybiau ar ôl yr ysgol yn dda iawn i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r clybiau yn niferus ac amrywiol, yn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o fedrau a diddordebau. Mae nifer dda iawn o ddisgyblion yn eu mynychu o'r dosbarth derbyn i fyny i Flwyddyn 6. Er bod yr ysgol yn defnyddio'r mannau awyr agored yn dda mewn rhai achosion, yn gyffredinol, ni chaiff y mannau hyn eu defnyddio'n gyson fel amgylchedd dysgu ysgogol a phwrpasol i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau dysgu ehangach.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol yn ystod gwersi ffurfiol, ac mae disgyblion yn amlwg yn eu mwynhau; mae athrawon yn hynod ddychmygus yn hyn o beth. Hefyd, mae'r ysgol yn hyrwyddo'r medrau hyn yn effeithiol mewn lleoliadau anffurfiol, ac fe gaiff Cymraeg achlysurol ei modelu gan staff yn dda iawn ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn cadw golwg ar ba mor dda y mae dysgu yn gwneud cynnydd yn ystod sesiynau. Maent yn monitro ac asesu cynnydd unigol yn effeithiol trwy ddefnyddio gwahanol ddulliau, fel technegau holi. Defnyddiant sesiynau llawn yn effeithiol i ddeall pa mor dda y mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd. Hefyd, maent yn gwerthuso cynnydd disgyblion yn effeithiol ar ddiwedd sesiwn ac yn addasu'r cynllunio yn unol â hynny ar gyfer y sesiwn nesaf.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad i'r disgyblion yn gryfder sylweddol yn yr ysgol. Mae perthnasoedd yn gryf, ac mae staff a disgyblion yn dangos lefel uchel o barch a gwerthfawrogiad at ei gilydd. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn

falch o'u hysgol a'i hethos. Mae ethos Catholig yr ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrio a gwerthfawrogi pwysigrwydd ysbrydolrwydd a myfyrdod.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth cymdeithasol ac emosiynol effeithiol iawn. Mae'n cyflwyno rhaglenni cymorth teilwredig ar gyfer unigolion a grwpiau. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar synnwyr disgyblion o les, ac maent yn helpu disgyblion i siarad am eu teimladau a defnyddio strategaethau effeithiol i reoli eu hemosiynau. Er enghraifft, darperir sesiynau ychwanegol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 i ystyried unrhyw ofidiau â'r cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd.

Mae rhieni'n gwerthfawrogi eu perthynas â'r ysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r arweiniad a roddwyd yn ystod y pandemig pan sicrhaodd cysylltiad rheolaidd gyda theuluoedd fod disgyblion yn gallu parhau i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn darparu profiadau gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ystod gweithgareddau ystafell ddosbarth a thrwy ymweliadau addysgol. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ganolbwyntio ar werthoedd pwysig, fel gonestrwydd, tegwch a ffydd, er enghraifft trwy ddisgyblion yn ymgymryd â gwaith trafod ar hiliaeth. Wrth wraidd ei chwricwlwm, mae'r ysgol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant, a sut maent yn uniaethu â'r gymuned leol a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am ras 'Nos Galan' i ddysgu am hanes eu hardal, ac mae lleiafrif ohonynt yn cymryd rhan ynddi.

Ceir darpariaeth gref ar gyfer plant ag ADY. Mae'r ysgol yn defnyddio systemau effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd. Maent yn defnyddio canlyniadau hyn i sicrhau bod disgyblion ag anghenion addysgol, emosiynol, cymdeithasol neu iechyd, yn cael y ddarpariaeth a'r ymyrraeth sy'n gweddu iddynt orau. Mae staff hyderus, ystyriol a gwybodus yn cyflwyno amrywiaeth eang o raglenni cymorth teilwredig i gefnogi datblygiad medrau academaidd ac emosiynol disgyblion. Mae'r ysgol wedi rhoi blaenoriaeth briodol i'r newidiadau i ddyletswyddau statudol o ran diwygio ADY. Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda ag asiantaethau allanol ac yn gofyn am farn teuluoedd yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cadw cofnodion o ansawdd da ar gyfer presenoldeb ac absenoldeb o'r ysgol ac yn mynd i'r afael yn dda ag achosion parhaus o ddisgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr. Mae systemau i gefnogi a herio presenoldeb isel yn effeithiol ac yn cael eu cymhwyso gan arweinwyr a staff yn gyson. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i fynd i'r afael â phroblemau presenoldeb gwael.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo a chefnogi diwylliant o ddiogelu a lles yng nghymuned yr ysgol, gan gynnwys agweddau ar-lein ar ddiogelwch, yn briodol. Mae staff yn deall a gweithredu gofynion a gweithdrefnau diogelu'r ysgol. Fodd bynnag, yn ystod wythnos yr arolygiad, nododd y tîm fod problemau â diogelwch ar y safle.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a thosturiol a chyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu'r ysgol. Caiff ei weledigaeth ar gyfer yr ysgol ei rhannu'n

bwrpasol gan bob o'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr. Mae staff wedi creu diwylliant cynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a bod ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Dywed staff a disgyblion eu bod yn teimlo'n rhan o deulu gofalgar a ffyddlon. O ganlyniad, mae ethos ystyriol a chynhwysol yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. Mae staff yn gweithio'n dda iawn fel tîm ac wedi arwain llawer o fentrau'n llwyddiannus yn yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n benodol ar les disgyblion. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth gref ar gyfer gofal bugeiliol yn sicrhau bod yr ysgol yn diwallu eu hanghenion emosiynol yn dda.

At ei gilydd, mae trefniadau hunanwerthuso'r ysgol yn drylwyr a phwrpasol ac yn cynnwys pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae staff a llywodraethwyr yn cydweithio ac yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael yn effeithlon i nodi cryfderau ac unrhyw feysydd i'w datblygu. Mae tystiolaeth yn cynnwys trafodaethau â staff, cyfarfodydd staff, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar waith. Mae'r wybodaeth hon yn bwydo i mewn i'r cynllun gwella ysgol yn bwrpasol, ac yn nodi camau gweithredu a meini prawf llwyddiant perthnasol a phriodol, sy'n amserol.

Mae'r ysgol yn datblygu hanes cadarn o welliant. Er enghraifft, nododd ei phrosesau hunanwerthuso fod angen gwella medrau rhif disgyblion ar draws yr ysgol. I ymateb i hynny, ymchwiliodd athrawon i ffyrdd effeithiol o wneud hyn, a rhoi dulliau ar waith sydd wedi gwella'r safonau mewn mathemateg yn sylweddol.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gadarn. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored ac yn cyfathrebu'n briodol â nhw gan ddefnyddio platfform ar-lein. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r offeryn cyfathrebu hwn ac yn ei weld yn ddefnyddiol i ddeall beth mae eu plant wedi bod yn dysgu yn ystod y dydd.

Ceir cynnig dysgu proffesiynol gwerth chweil a pherthnasol, ac mae'r pennaeth yn annog pob aelod o staff i ymgymryd â dysgu yn seiliedig ar ymchwil sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag anghenion y disgyblion. Yn dilyn ymchwil ar y cyd rhwng athrawon a staff cymorth am egwyddorion addysgu a dysgu, gwnaeth staff newidiadau i'w dulliau addysgu. Er enghraifft, mewn mathemateg, maent wedi dechrau defnyddio gwrthrychau i gynorthwyo'r holl ddisgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu ac ymgysylltiad disgyblion. Mae arweinwyr yr ysgol wedi ymrwymo i ddatblygiad staff. Maent yn creu cyfleoedd i athrawon ddatblygu i ymgymryd â rolau arwain ac i staff cymorth ddatblygu eu gyrfaoedd. Er enghraifft, mae llawer o'r staff cymorth wedi cwblhau gradd mewn addysg yn ddiweddar.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i reoli perfformiad pob aelod o staff ar sail eu hanghenion proffesiynol unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn elwa ar gysylltiadau cryf ag ysgolion clwstwr ar sawl lefel. Maent yn gweithio'n agos gyda'u clwstwr bach Catholig ac yn cymryd rhan mewn prosiect gwerthfawr ar y cyd â chlwstwr ysgolion Aberdâr. Mae hyn wedi canolbwyntio ar ddatblygu ymagwedd gydlynus at y Cwricwlwm i Gymru, ac yn fwy penodol, dealltwriaeth ar y cyd o feysydd dysgu a phrofiad.

Mae gan yr ysgol gynllun gwariant synhwyrol, sy'n sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Fodd bynnag, ni chaiff yr adnoddau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored eu rheoli'n ddigon effeithiol i symud dysgu ymlaen i fodloni disgwyliadau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

Mae llywodraethwyr yn cynorthwyo'r ysgol i reoli a threfnu ei hadnoddau'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys defnydd da o'r grant datblygu disgyblion, a ddefnyddir i ariannu staff ychwanegol. Mae llywodraethwyr yr ysgol yn wybodus iawn ac yn hynod brofiadol. Maent yn dilyn hynt a helynt datblygiadau a safonau addysg cenedlaethol, sy'n darparu cyd-destun buddiol i'w helpu i fonitro a darparu her gadarn am waith yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ystyriol, i gynorthwyo'r pennaeth i symud yr ysgol ymlaen. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol i hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  30/08/2022